**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2550 (Cy.215)

# YR IAITH GYMRAEG

## Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O dan Ran II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("y Ddeddf") gall Bwrdd yr Iaith Gymraeg roi hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw gorff cyhoeddus lunio Cynllun Iaith Gymraeg. Mae adran 6 o'r Ddeddf yn rhestru amryw o gyrff cyhoeddus at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf ac yn darparu bod yr Ysgrifennydd Gwladol (y Cynulliad Cenedlaethol bellach) yn cael pennu cyrff cyhoeddus pellach at y dibenion hynny.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu cyrff cyhoeddus pellach at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf.

Mae dau Orchymyn blaenorol wedi'u gwneud o dan adran 6 o'r Ddeddf:

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1996 (1996/1898); a

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1999 (1999/1100).

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2550 (W.215)

# WELSH LANGUAGE

## The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Under Part II of the Welsh Language Act 1993 ("the Act") the Welsh Language Board may give notice in writing to any public body to produce a Welsh Language Scheme. Section 6 of the Act lists various public bodies for the purposes of Part II of the Act and provides that the Secretary of State (now the National Assembly) may specify further public bodies for those purposes.

This Order specifies further public bodies for the purposes of Part II of the Act.

Two previous Orders have been made under section 6 of the Act:

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 1996 (1996/1898); and

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 1999 (1999/1100).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2550 (Cy.215)

# YR IAITH GYMRAEG

## Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *12 Gorffennaf 2001* |
| *Yn dod i rym* | *1 Awst 2001* |

Gan ei bod yn ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fod y personau y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn bersonau sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur;

Yn awr felly, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y swyddogaethau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 6(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol(**a**), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001 a daw i rym ar 1 Awst 2001.

**Pennu Cyrff Cyhoeddus**

**2.** Pennir y personau y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn at ddibenion Rhan II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**b**)

12 Gorffennaf 2001

*D. Elis Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2550 (W.215)

# WELSH LANGUAGE

## The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2001

| | |
|---|---|
| *Made* | *12th July 2001* |
| *Coming into force* | *1st August 2001* |

Whereas it appears to the National Assembly for Wales that the persons referred to in the Schedule to this Order are persons exercising functions of a public nature;

Now therefore the National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by section 6(1) of the Welsh Language Act 1993 and now vested in the National Assembly(**a**), and of all other powers enabling it in that behalf, hereby makes the following Order:

**Citation and commencement**

**1.** This Order may be cited as the Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2001 and shall come into force on 1 August 2001.

**Specification of Public Bodies**

**2.** Persons referred to in the Schedule to this Order are specified for the purposes of Part II of the Welsh Language Act 1993.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**b**)

12th July 2001

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. (O.S. 1999/672).

(b) 1998 p.38.

(a) The National Assembly for Wales(Transfer of Functions) Order 1999. (S.I. 1999/672).

(b) 1998 c.38.

| YR ATODLEN | THE SCHEDULE |
|---|---|
| **ENW CYMRAEG NEU GYFIEITHIAD O'R ENW** | **ENGLISH NAME** |
| Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol | Basic Skills Agency |
| Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch | The Quality Assurance Agency for Higher Education |
| Awdurdod Cwynion yr Heddlu | Police Complaints Authority |
| Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol | Criminal Injuries Compensation Authority |
| Yr Awdurdod Radio | Radio Authority |
| Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr | Youth Justice Board for England and Wales |
| Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol | National Lottery Charities Board |
| Y Bwrdd Marchnata Gwlân | Wool Marketing Board |
| Byrddau Prawf Lleol yng Nghymru | Local Probation Boards in Wales |
| Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol | Legal Services Commission |
| Y Comisiwn Gwella Iechyd | Commission for Health Improvement |
| Y Comisiwn Hawliau Anabledd | Disability Rights Commission |
| Y Comisiwn Safonau Darlledu | Broadcasting Standards Commission |
| Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol | National Heritage Memorial Fund |
| Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr | Student Loans Company |
| Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol | Biotechnology and Biological Sciences Research Council |
| Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru | General Teaching Council for Wales |
| Y Cyngor Ffilm | Film Council |
| Cyngor Ymchwil Amgylchedd Naturiol | Natural Environment Research Council |
| Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol | Engineering and Physical Sciences Research Council |
| Y Gronfa Cyfleoedd Newydd | New Opportunities Fund |
| Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau | Universities and Colleges Admission Service |
| Panel Asesu Rhenti i Gymru | Rent Assessment Panel for Wales |
| Syniad | Syniad |
| UFI Cyf. | UFI Ltd. |

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2550 (Cy.215)

# YR IAITH GYMRAEG

## Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2550 (W.215)

# WELSH LANGUAGE

## The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2001

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090297-1

9 780110 902975

**£1.75**

W/248/08/01 ON